

Cynllun Gweithredol Adnodd ar gyfer 2026-2027



Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Ein gwaith ni.....	4
Ein gwerthoedd ni.....	5
Llesiant cenedlaethau'r dyfodol.....	6
Y Gymraeg.....	8
Amcanion corfforaethol Adnodd ar gyfer 2026/27.....	9
Cyflawni ein hamcanion corfforaethol ar gyfer 2026/27.....	10
Monitro ac adrodd.....	17

Cyflwyniad

Mae'r cynllun gweithredol hwn yn egluro'r gwaith a fydd yn cael ei wneud i gyflawni amcanion corfforaethol Adnodd ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27.

Mae'r amcanion corfforaethol hynny'n adlewyrchu gofynion ein Llythyr Cylch Gwaith a'n Llythyr Ariannu gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â Strategaeth Adnodd 2025 - 2028. Mae'r Cynllun hefyd yn dangos sut bydd Adnodd yn cefnogi amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chynllun Cymraeg 2050.

Ein gwaith ni

Gweledigaeth Adnodd yw bod gan ein holl ymarferwyr a dysgwyr, beth bynnag fo'u cefndir, yr hawl i gael adnoddau addysgol o ansawdd da, a'r rheini'n tanio'u dychymyg, yn hybu eu lles, ac yn ysgogi cariad gydol oes at ddysgu.

Byddwn ni'n cyflawni ein gweledigaeth drwy arwain a chydlynu'r broses o ddarparu adnoddau addysgol i ysbrydoli addysgu a dysgu'r Cwricwlwm i Gymru. Bydd yr adnoddau hyn yn rhai y mae modd eu haddasu, byddan nhw'n rhwydd i'w defnyddio, a byddan nhw ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd hyn yn helpu ein holl blant a phobl ifanc i ddod yn ddinasyddion iach, chwilfrydig, mentrus a moesegol, a hwythau'n barod i gyfrannu'n llawn at fywyd, at waith, ac at eu cymunedau.



Archwilio

Rydyn ni'n gwneud gwaith ymchwil ac ymgysylltu i gadw llygad ar dueddiadau'r dyfodol ac i feithrin ffordd o feddwl sy'n rhoi sylw i'r tymor hir. Mae hyn yn ein helpu i fapio'r adnoddau presennol, canfod bylchau, deall yr heriau, a darganfod dulliau newydd o gyflawni. Rydyn ni'n cynnwys pobl eraill yn y broses o ddod o hyd i wybodaeth, ac yn ystyried anghenion a gofynion y sector wrth i'r rheini esblygu. Rydyn ni'n parhau i fod yn hyblyg ac yn barod i newid, ac yn canolbwyntio ar brofiad y defnyddiwr.



Llywio a Chydlynu

Rydyn ni'n llywio ac yn cydlynu'r broses o ddarparu adnoddau i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru. Rydyn ni'n ymwneud â phartneriaid i greu gweledigaeth gyffredin ar gyfer datblygu adnoddau, gan feithrin cydweithredu a hyrwyddo arferion da. Mae hyn yn creu system fwy cynaliadwy ar gyfer darparu a chynnal adnoddau addysgol.



Comisiynu

Drwy rowndiau cystadleuol, rydyn ni'n comisiynu adnoddau hygyrch ac addasadwy o ansawdd da sy'n cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r adnoddau hyn hefyd yn rhoi sylw i anghenion a bylchau yn y ddarpariaeth, a'r rheini wedi'u canfod drwy gasglu tystiolaeth. Bydd yr adnoddau'n cyfoethogi dysgu trawsgwricwlaidd, yn cyd-fynd â chanllawiau polisi, ac yn gwella dysgu proffesiynol.



Gwerthuso ac Adolygu

Rydyn ni'n adolygu ein prosesau, yr adnoddau rydyn ni'n eu comisiynu, a sut maen nhw'n cael eu defnyddio. Rydyn ni'n gwerthuso ac yn defnyddio tystiolaeth i ddangos sut mae ein gwaith yn cefnogi anghenion dysgwyr ac ymarferwyr. Drwy wella'n barhaus, rydyn ni'n sicrhau bod yr adnoddau sy'n cael eu darparu yn berthnasol ac yn hygyrch.

Ein gwerthoedd ni



Ymatebol

Rydyn ni'n dysgu ac yn cnoi cil am yr hyn mae'r sector yn ei ddweud wrthyn ni, ac anghenion y sector sy'n llywio ein gwaith. Rydyn ni'n cynnwys dysgwyr ac ymarferwyr yn ein penderfyniadau fel bod eu profiad nhw'n ganolog i'r adnoddau rydyn ni'n eu comisiynu.



Cynhwysol

Mae parchu a gofalu am ein gilydd, a phawb o'n cwmpas, yn ganolog i bopeth a wnawn. Rydyn ni'n blaenoriaethu gwaith sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac yn cael gwared ar rwystrau i ddysgu, fel bod gan ein holl ddysgwyr, waeth beth fo'u cefndir, yr hawl i gael profiad addysgol cadarnhaol a diogel.



Cydweithiol

Rydyn ni'n meithrin ymdeimlad o gymuned ac undod yn fewnol yn ein sefydliad ac ymhlith y bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw. Rydyn ni'n meithrin partneriaethau cydlynol a fydd yn para drwy archwilio a chydweithio.



Creadigol

Rydyn ni'n dathlu arloesi, yn croesawu syniadau newydd, ac yn annog pobl i wneud pethau mewn ffyrdd gwahanol. Rydyn ni'n croesawu'r defnydd o dechnoleg ac yn arbrofi â ffurfiau newydd ar adnoddau, gan ddysgu'n gyson o'n profiadau. Rydyn ni'n datblygu ac yn rhannu adnoddau sy'n fywiog ac yn hwyliog, ac sy'n ysbrydoli dysgu.

Llesiant cenedlaethau'r dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn ymrwymiad cyfreithiol sy'n gorfodi Adnodd a gwasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru i weithio gyda'i gilydd i greu Cymru rydyn ni i gyd eisiau byw ynddi, a hynny nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r Ddeddf yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae egwyddor datblygu cynaliadwy yn rhan o amcanion corfforaethol, ffyrdd o weithio, a dangosyddion perfformiad Adnodd. Yn sgil hynny, rydyn ni'n sicrhau ein bod ni'n rhoi sylw i anghenion y presennol heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae Adnodd wedi sicrhau bod yr egwyddorion sy'n sail i'n gwaith yn cyd-fynd â'r Pum Ffordd o Weithio a geir yn y Ddeddf.

Y pum ffordd o weithio	Sut mae Adnodd yn rhoi hyn ar waith yn ymarferol
Hirdymor	Drwy gydweithio ag amrywiaeth o arbenigwyr a phartneriaid, byddwn ni'n ehangu ein gwybodaeth ac yn gwreiddio ffordd hirdymor o feddwl am bethau yn ein gwaith. Byddwn ni'n cynnwys ymarferwyr a dysgwyr yn y broses o ddatblygu, adolygu a gwerthuso ein gwaith fel y gallwn addasu, cynllunio a darparu adnoddau a fydd yn diwallu anghenion defnyddwyr yn y ffordd orau. Bydd ein hymyriadau yn rhai bwriadol a strategol, ac yn atal yn hirdymor y problemau parhaus sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc.
Atal	Drwy ein Fframwaith Sicrhau Ansawdd, byddwn ni'n gosod disgwyliadau clir ac yn ceisio gofalu bod yr holl adnoddau rydyn ni'n eu comisiynu ac yn eu rhannu o ansawdd rhagorol. Bydd ein pwyslais ar ansawdd adnoddau, yn hytrach na'u nifer. Byddwn ni'n comisiynu adnoddau addysgol sy'n haws i'w haddasu a'u defnyddio, sy'n berthnasol, ac sy'n gynhwysol, a hynny er mwyn diwallu'r anghenion a ganfuwyd. Byddwn ni'n ymwybodol na fydd angen comisiynu adnoddau newydd o hyd, ac y byddai'n fwy cost-effeithiol sicrhau bod yr adnoddau rhagorol sy'n bodoli eisoes ar gael yn ehangach.

Y pum ffordd o weithio	Sut mae Adnodd yn rhoi hyn ar waith yn ymarferol
Integreiddio	Polisi Llywodraeth Cymru yw bod y Gymraeg yn perthyn i ni i gyd, ac y bydd gan bob dysgwr y gallu i wneud defnydd cyfartal o'r iaith a'r cyfle i wireddu ei botensial. Byddwn ni'n hybu Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 drwy annog y defnydd o'r CEFR (Y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer leithoedd) fel cyfrwng ar gyfer cynllunio amrywiaeth o adnoddau sy'n seiliedig ar gontinwmm iaith strwythuredig, cenedlaethol. Drwy ein ffocws ar gynhwysiant, byddwn ni'n buddsoddi mewn adnoddau a fydd yn ysbrydoli ac yn ennyn diddordeb pawb, gan gynnwys dysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), yn unol â'r Ddeddf ADY. Mae hyrwyddo tegwch a gwrth-hiliaeth yn sylfaenol i bopeth a wnawn. Bydd yr adnoddau rydyn ni'n eu comisiynu yn ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chael gwared ar rwystrau, fel y gall pob dysgwr gael profiad addysgol teg a chadarnhaol.
Cydweithredu	Ein nod yw cael dull mwy cynaliadwy o ddatblygu adnoddau. Mae hyn yn golygu nad comisiynu cynhyrchion newydd ein hunain yn unig fyddwn ni. Byddwn ni hefyd yn mynd ati'n rhagweithiol i helpu i feithrin capasiti a rhwydweithiau effeithiol ar gyfer creu a rhannu adnoddau. Y nod fydd sicrhau bod amrywiaeth yr adnoddau addysgol sydd ar gael yng Nghymru yn gydlynol, yn gytbwys ac yn deg. Drwy ein Cronfa Arloesi a Chydweithio, byddwn ni'n grymuso ymarferwyr, gweithwyr llawrydd a sefydliadau i gyd-greu adnoddau addysgol cynhwysol, llawn dychymyg ac effeithiol sy'n cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru.
Cyfranogiad	Drwy fabwysiadu dull o weithio sy'n rhoi pobl yn gyntaf, byddwn ni'n cydweithio ac yn ymgysylltu drwy'r holl sector addysg a'r tu hwnt i ddeall safbwyntiau, anghenion a phrofiadau'r gwahanol bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw. Rydyn ni'n cydnabod nad oes gennyn ni'r holl atebion, a bod llawer o bethau nad ydyn ni'n eu gwybod eto. Byddwn ni'n creu'r amodau er mwyn i bethau annisgwyl ffynnu, ac er mwyn datblygu adnoddau mewn ffurfiau newydd, llawn dychymyg. Fel galluogwr strategol, byddwn ni'n dod ag ymarferwyr, dysgwyr, cwmnïau, sefydliadau llawr gwlad a chymunedau at ei gilydd i feddwl am syniadau newydd a chreu ffyrdd arloesol o greu a rhannu adnoddau.

Y Gymraeg

Mae ymrwymiad Adnodd i'r Gymraeg yn gwbl ganolog i'n cenhadaeth.

A ninnau'n falch o fod yn sefydliad dwyieithog, rydyn ni'n cydnabod nad ffordd o gyfathrebu yn unig yw iaith, ond mynegiant byw o ddiwylliant, hunaniaeth a pherthyn.

Er bod safonau'r Gymraeg yn berthnasol i Adnodd, mae ein hymwneud â'r Gymraeg yn golygu llawer mwy na chydymffurfio â'r safonau hynny'n unig; mae'n arwydd o'n hymroddiad i greu amgylchedd lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'n naturiol ochr yn ochr â'r Saesneg ym mhopeth a wnawn. O'n ffyrdd mewnol o weithredu, i'n gwaith gyda'r cyhoedd, mae ein hathroniaeth yn golygu dathlu treftadaeth gyfoethog Cymru gan sicrhau lle hollbwysig i'r dreftadaeth honno yn nyfodol Cymru ar yr un pryd.

Amcanion corfforaethol Adnodd ar gyfer 2026/27

Rydyn ni wedi gosod pump o amcanion corfforaethol ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27, a'r rheini'n rhoi sylw i ofynion ein cytundeb â Llywodraeth Cymru, ein hymrwymadau polisi, a'n blaenoriaethau strategol.

1 Addasu ein strategaeth a pharhau i gyflawni'n ddiymdroi

Byddwn ni'n ymateb yn gyflym i unrhyw newidiadau ym mlaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac i'n cylch gwaith newydd, a hynny drwy adolygu a diweddarau ein strategaeth a'n cynlluniau.

Wrth i ni wneud hynny, byddwn ni'n parhau i gyflawni ein rhaglen gomisiynu'n ddiymdroi er mwyn sicrhau bod adnoddau dwyieithog o'r radd flaenaf ar gael, yn unol â'r meysydd blaenoriaeth yn ein llythyr ariannu. Byddwn ni'n sicrhau bod adnoddau'n targedu anghenion defnyddwyr, yn cefnogi addysgu a dysgu effeithiol, yn helpu i reoli llwyth gwaith, ac yn gwneud gwir wahaniaeth yn y byd addysg yng Nghymru. A byddwn ni'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i wella sut rydyn ni'n comisiynu ac yn sicrhau ansawdd adnoddau - adnoddau sy'n galluogi dysgwyr i wneud cynnydd drwy gwricwlwm a threfniadau asesu sydd wedi'u dylunio'n dda ac sy'n cael eu rhoi ar waith yn dda.

2 Dyfnhau ein ffyrdd o gydweithio â Llywodraeth Cymru, Dysgu a phartneriaid cenedlaethol i gefnogi'r system addysg

Byddwn ni'n cydweithio â Llywodraeth Cymru, Dysgu, Cymwysterau Cymru, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a phartneriaid cenedlaethol a lleol eraill i wneud pethau'n fwy cydlynol, i feithrin capasiti, ac i gefnogi'r broses o reoli newid drwy'r system addysg.

3 Cryfhau ein tystiolaeth, ein gwybodaeth a'n heffaith

Byddwn ni'n mynd ati mewn ffordd gynyddol systematig i sicrhau ansawdd darpariaeth newydd a'r ddarpariaeth bresennol, ac i asesu effaith y ddarpariaeth honno. Byddwn ni'n defnyddio tystiolaeth o'n gwaith ymchwil a'n gwaith ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bartneriaid, cyfranwyr a defnyddwyr. Bydd hyn yn ein helpu i ganfod a blaenoriaethu anghenion a chyfleoedd, gyda ffocws cryf ar brofiad y defnyddiwr ac effaith addysgol.

4 Sicrhau trefniadau llywodraethu cryf, atebolrwydd a gwerth am arian

Byddwn ni'n parhau i weithredu ac aeddfedu fel corff cyhoeddus atebol sy'n cael ei lywodraethu'n dda, gan reoli arian cyhoeddus yn gyfrifol, cyflawni ein dyletswyddau statudol, cyfrannu at amcanion polisi cyhoeddus ehangach, a rhoi sicrwydd clir ynghylch perfformiad, risgiau ac effaith.

5 Buddsoddi yn ein pobl, ein systemau a'n ffyrdd o weithio

Byddwn ni'n helpu ein staff i ffynnu, yn cryfhau ein systemau a'n ffyrdd o weithio, ac yn meithrin diwylliant cynhwysol, cydweithredol sy'n galluogi Adnodd i gyflawni'n effeithiol ac yn gynaliadwy.

Cyflawni ein hamcanion corfforaethol ar gyfer 2026/27

Isod rydyn ni'n egluro'r gwaith y byddwn ni'n ei wneud i gyflawni ein hamcanion corfforaethol.

I gyd-fynd â'r gweithgareddau hyn, mae cynlluniau gwaith manwl sy'n ein helpu i gyflawni'n effeithiol ac yn effeithlon, ac sy'n ein galluogi i roi adroddiadau rheolaidd i Fwrdd Adnodd am gynnydd, perfformiad a risgiau.

Rydyn ni'n dechrau'r flwyddyn mewn sefyllfa gref, ac yn datblygu ar y cynnydd rhagorol a wnaethpwyd i ddatblygu a sefydlu'r systemau a'r prosesau sydd eu hangen arnon ni i weithredu'n effeithiol.

Eleni, wrth i ni wreiddio ein model gweithredu yn y sefydliad, ac wrth i hwnnw aeddfedu, byddwn ni'n canolbwyntio ar fesur a gwerthuso ein cynnydd a'n heffaith. Byddwn ni'n gwneud hyn drwy sefydlu, monitro a mireinio amryw o ddangosyddion.

Mae'r cyfeiriadau at chwarteri yn y tabl isod yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol, gyda Chwarter 1 yn cyfeirio at fis Ebrill tan fis Mehefin 2026, Chwarter 2 yn cyfeirio at fis Gorffennaf tan fis Medi, ac yn y blaen.

AMCAN CORFFORAETHOL 1: Addasu ein strategaeth a pharhau i gyflawni'n ddiymdroi

Byddwn ni'n ymateb yn gyflym i unrhyw newidiadau ym mlaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac i'n cylch gwaith newydd, a hynny drwy adolygu a diweddarau ein strategaeth a'n cynlluniau.

Wrth i ni wneud hynny, byddwn ni'n parhau i gyflawni ein rhaglen gomisiynu'n ddiymdroi er mwyn sicrhau bod adnoddau dwyieithog o'r radd flaenaf ar gael, yn unol â'r meysydd blaenoriaeth yn ein llythyr ariannu. Byddwn ni'n sicrhau bod adnoddau'n targedu anghenion defnyddwyr, yn cefnogi addysgu a dysgu effeithiol, yn helpu i reoli llwyth gwaith, ac yn gwneud gwir wahaniaeth yn y byd addysg yng Nghymru. A byddwn ni'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i wella sut rydyn ni'n comisiynu ac yn sicrhau ansawdd adnoddau - adnoddau sy'n galluogi dysgwyr i wneud cynnydd drwy gwricwlwm a threfniadau asesu sydd wedi'u dylunio'n dda ac sy'n cael eu rhoi ar waith yn dda.

	Gweithgaredd	Canlyniad
1.1	Adolygu ac addasu strategaeth Adnodd i sicrhau bod blaenoriaethau a meysydd ffocws Adnodd yn cyd-fynd â rhai Llywodraeth newydd Cymru.	Diweddarau llythyr cylch gwaith a strategaeth Adnodd yn Chwarter 2.

	Gweithgaredd	Canlyniad
1.2	Cynllunio, cynnal ac adolygu cylchoedd comisiynu cystadleuol tymhorol a'r rheini'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau yn ein llythyr ariannu a'n strategaeth, gan gynnwys: • Llythrennedd • Rhifedd • Dyluniad y cwricwlwm a'r trefniadau asesu • Anghenion dysgu ychwanegol • Tegwch a llesiant • Y dyniaethau • Gwyddoniaeth • Tegwch o ran y Gymraeg • Cymwysterau	Yn nhymhorau'r haf, yr hydref a'r gwanwyn, rhaglen dreigl o gyfleoedd comisiynu thematig wedi'u targedu, a hynny drwy ein fframweithiau ar gyfer cyflenwyr a grantiau. Gwybodaeth ar gael yn brydlon i gyflenwyr er mwyn helpu gyda gwaith cynllunio ac ymgysylltu. Y prosiectau sy'n cael dyfarniadau yn cyd-fynd yn dda â'n blaenoriaethau. Defnydd effeithiol o gyllid i sicrhau gwerth am arian. Dysgu a gwella parhaus o'r naill gylch i'r llall.
1.3	Lansio Fframwaith Sicrhau Ansawdd Adnodd, cyhoeddi gwybodaeth glir ar gyfer crewyr cynnwys i esbonio ein disgwyliadau, a datblygu ein ffyrdd o weithio'n barhaus i wreiddio prosesau sicrhau ansawdd ym mhopeth a wnawn.	Lansio'r Fframwaith yn Chwarter 1 gyda gwybodaeth a chanllawiau ategol i bartneriaid, crewyr cynnwys a defnyddwyr. Cynnig sesiynau cyngor a chymorth rhyngweithiol ar-lein i gyflenwyr yn Chwarter 2 a Chwarter 3, a'r rheini'n canolbwyntio ar ran elfennol o'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd. I ddilyn hyn, gwaith parhaus i ddatblygu canllawiau ychwanegol a phrosesau gweithredol er mwyn sicrhau ansawdd mewn ffordd systematig.
1.4	Tyfu Cyfeillion Adnodd - gan gynnwys sefydliadau partner ac ymarferwyr - a datblygu sut maen nhw'n helpu i ddatblygu ac adolygu adnoddau.	Mwy o Gyfeillion Adnodd, a Chyfeillion Adnodd mwy amrywiol, yn cyfrannu at sut caiff adnoddau eu dylunio, eu datblygu a'u gwerthuso, gan roi pwyslais cynhwysol a chyson ar anghenion a phrofiadau defnyddwyr.
1.5	Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddiweddarau'r canllawiau ar gyfer datblygu adnoddau, a'r rheini'n adlewyrchu disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru ac yn datblygu ar waith y rhaglen gymorth genedlaethol a phrosiectau Camau.	Yn Chwarter 3, datblygu canllawiau wedi'u diweddarau ar gyfer datblygu adnoddau sy'n cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru.

	Gweithgaredd	Canlyniad
1.6	Cefnogi Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid, gan ddefnyddio gwybodaeth o'n gwaith ymchwil a'n gwaith ymgysylltu, i wella profiad y defnyddiwr wrth ddarganfod a defnyddio adnoddau ar Hwb. Ei gwneud hi'n haws i ddefnyddwyr chwilio am adnoddau ar Hwb, eu darganfod, eu gweld a'u defnyddio.	Map o brofiad delfrydol defnyddwyr a syniadau ar gyfer gwella'r ymarferoldeb yn cael eu datblygu a'u profi ymhlith defnyddwyr yn Chwarter 1 a Chwarter 2, er mwyn rhoi sail i'r gwaith o ddatblygu man wedi'i ddiweddarau ar gyfer adnoddau ar Hwb.
1.7	Parhau i gryfhau presenoldeb digidol a hunaniaeth gorfforaethol Adnodd, gan adlewyrchu cenhadaeth, gwerthoedd ac effaith Adnodd, er mwyn cefnogi a galluogi gwaith ymgysylltu â phartneriaid, crewyr a defnyddwyr.	Cytuno ar gynllun strategol ar gyfer gwaith ymgysylltu a chyfathrebu yn Chwarter 1, gydag adroddiadau cynnydd rheolaidd yn cael eu rhoi i Fwrdd Adnodd bob chwarter.
1.8	Adolygu, mesur ac adrodd am y cynnydd o dan y blaenoriaethau, yr amcanion a'r meysydd ffocws wedi'u diweddarau a geir yn ein strategaeth ar gyfer 2025 - 2028.	Llunio adroddiad yn Chwarter 3 am ein cynnydd hyd yma, gan ddangos y cyfeiriad ar gyfer y dyfodol yn unol â'r cylch gwaith a'r strategaeth wedi'u diweddarau.

AMCAN CORFFORAETHOL 2: Dyfnhau ein ffyrdd o gydweithio â Llywodraeth Cymru, Dysgu a phartneriaid cenedlaethol i gefnogi'r system addysg

Byddwn ni'n cydweithio â Llywodraeth Cymru, Dysgu, Cymwysterau Cymru, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a phartneriaid cenedlaethol a lleol eraill i wneud pethau'n fwy cydlynol, i feithrin capasiti, ac i gefnogi'r broses o reoli newid drwy'r system addysg.

	Gweithgaredd	Canlyniad
2.1	Parhau i sicrhau bod trefniadau llywodraethu a threfniadau gweithredol Adnodd yn cyd-fynd â rhai Llywodraeth Cymru a chyrff addysg drwy'r Grŵp Gweithrediadau Cymorth Addysg sydd newydd gael ei sefydlu.	Blaenoriaethau, cyfleoedd, cyllid a thystiolaeth wedi'u cydlynu'n dda ac yn cyd-fynd â'i gilydd yn dda, a hynny'n cael ei adlewyrchu mewn trefniadau comisiynu cyson a chydategol ac yn yr adnoddau addysgol a'r cyfleoedd dysgu proffesiynol sydd ar gael.
2.2	Gweithio gyda Cymwysterau Cymru, Dysgu a chyrff dyfarnu i ganfod a darparu'r adnoddau sy'n angenrheidiol i gefnogi Cymwysterau Cenedlaethol 14-16.	Cytuno â Dysgu yn Chwarter 1 i ymrwymo i gydweithredu, er mwyn rhoi sail a ffocws i gydweithio parhaus ac effeithiol, a sicrhau bod gweithgareddau'n cyd-fynd â'i gilydd ar sail meysydd blaenoriaeth cyffredin.

	Gweithgaredd	Canlyniad
2.3	Gweithio gyda Cymwysterau Cymru, Dysgu a chyrrff dyfarnu i ganfod a darparu'r adnoddau sy'n angenrheidiol i gefnogi Cymwysterau Cenedlaethol 14-16.	Canfod a chytuno ar y gofynion ar gyfer adnoddau erbyn Chwarter 2 er mwyn gallu cynnal proses gomisiynu wedi'i thargedu yn Chwarter 3, a hynny'n arwain at greu'r adnoddau sy'n flaenoriaeth erbyn mis Medi 2027.
2.4	Gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gynllunio'r cymorth sy'n angenrheidiol i roi ar waith Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, gan gynnwys y Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg y mae disgwyl ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2027.	Cytuno ar brosiect ar y cyd ar gyfer gwneud gwaith ymchwil a datblygu i greu canllawiau ymarferol ar gyfer defnyddio'r Cod, yn seiliedig ar y CEFR, a hynny wrth greu adnoddau addysgol cyfrwng Cymraeg i bob dysgwr.
2.5	Meithrin capasiti'r system a chynyddu dylanwad ac effaith Adnodd drwy gydweithredu strategol a chreadigol â chyrrff a phartneriaid cenedlaethol eraill yn y maes addysg.	Cryfhau'r cydweithio â phartneriaid cenedlaethol ar flaenoriaethau a chynlluniau, i sicrhau bod y rheini'n cyd-fynd â'i gilydd, ac i ganfod cyfleoedd i gydweithio ar brosiectau sy'n ymateb i flaenoriaethau ac amcanion Llywodraeth Cymru.
2.6	Gwneud gwaith strategol a chydlynol yn y maes ymgysylltu a chyfathrebu er mwyn cryfhau proffil, hygyrddedd a phartneriaethau Adnodd.	Trefniadau ar waith gyda Llywodraeth Cymru a Dysgu i gydlyn negeseuon ar gyfer ymarferwyr a defnyddwyr.
2.7	Cryfhau presenoldeb digidol a hunaniaeth gorfforaethol Adnodd, gan adlewyrchu cenhadaeth, gwerthoedd ac effaith Adnodd, a helpu i ymwneud â phartneriaid a defnyddwyr.	Cytuno ar gynllun strategol ar gyfer gwaith ymgysylltu a chyfathrebu yn Chwarter 1, gydag adroddiadau cynnydd rheolaidd yn cael eu llunio bob chwarter. Bydd ymgyrchoedd cyfathrebu ar y cyd yn cryfhau'r gwaith ymgysylltu ac yn sicrhau bod negeseuon yn eglur ac yn gyson. Adnoddau'n cael eu hyrwyddo drwy negeseuon sy'n targedu amrywiaeth o randdeiliaid. Ymarferwyr yn meddu ar fwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddiben a chylch gwaith Adnodd.

AMCAN CORFFORAETHOL 3: Cryfhau'r dystiolaeth, gwybodaeth ac effaith

Byddwn ni'n mynd ati mewn ffordd gynyddol systematig i sicrhau ansawdd darpariaeth newydd a'r ddarpariaeth bresennol, ac i asesu effaith y ddarpariaeth honno. Byddwn ni'n defnyddio tystiolaeth o'n gwaith ymchwil a'n gwaith ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bartneriaid, cyfranwyr a defnyddwyr. Bydd hyn yn ein helpu i ganfod a blaenoriaethu anghenion a chyfleoedd, gyda ffocws cryf ar brofiad y defnyddiwr ac effaith addysgol ar lawr gwlad.

	Gweithgaredd	Canlyniad
3.1	Byddwn ni'n defnyddio canfyddiadau ein gwaith ymchwil ynghylch adnoddau llythrennedd i gydweithio'n well â phartneriaid, gan gynnwys y rheini sy'n cael grantiau drwy'r Cwricwlwm i Gymru, ac i greu ein cynlluniau comisiynu ar gyfer adnoddau a fydd yn hybu sgiliau llythrennedd a darllen er pleser.	Cyhoeddi canfyddiadau'r ymchwil ynghylch llythrennedd yn Chwarter 2. I ddilyn hynny, cynnal rhaglen ar gyfer cydweithio â phartneriaid cenedlaethol, gan gynnwys Dysgu, Estyn a'r rheini sy'n cael grantiau drwy'r Cwricwlwm i Gymru er mwyn canfod, gwerthuso a chomisiynu adnoddau sy'n arwain at ddeilliannau llythrennedd da i bob dysgwr ifanc yng Nghymru.
3.2	Byddwn ni'n comisiynu gwaith ymchwil pellach ynghylch anghenion a phrofiadau defnyddwyr, gan gynnwys edrych ar yr opsiynau, y goblygiadau, a'r heriau o ddefnyddio adnoddau sydd wedi'u galluogi gan ddeallusrwydd artifisial (AI) i gefnogi ymarferwyr, gwella dysgu a lleihau llwyth gwaith.	Manyleb ar gyfer y gwaith ymchwil wedi'i ddatblygu ar y cyd a'i gyhoeddi yn Chwarter 3, gyda ffocws ar ganfyddiadau ymarferol y gellir eu rhoi ar waith a fydd yn llywio ein gwaith comisiynu yn y dyfodol.
3.3	Byddwn ni'n datblygu, yn cyhoeddi ac yn rhoi ar waith ein dull o werthuso ansawdd ac effaith yr adnoddau rydyn ni'n eu comisiynu, a hynny drwy ddefnyddio gwybodaeth gan ddefnyddwyr a chael adborth gan ddarparwyr ac ymarferwyr addysg.	Gweithio gyda Chyfeillion Adnodd yn Chwarter 2 a Chwarter 3 i ddatblygu, rhoi ar waith a mireinio'r dull yn ymarferol. Cyhoeddi dull Adnodd o werthuso ac adrodd am effaith ein gwaith comisiynu yn Chwarter 4.
3.4	Byddwn ni'n cyflwyno rhaglen adolygu i ganfod, dilysu a blaenoriaethu anghenion mewn gwahanol feysydd yn ein darpariaeth, gan ddefnyddio arbenigedd ein partneriaid, ein cyflenwyr a Chyfeillion Adnodd i roi sicrwydd i'r canfyddiadau ac i adolygu a mireinio'r broses yn rheolaidd.	Bydd y dull cychwynnol yn canolbwyntio ar waith i gyfrannu at ddatblygu a chyflawni Cynllun Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol Llywodraeth Cymru. I ddilyn hyn, gwaith i adolygu a chanfod y gofynion ar gyfer cefnogi'r Cymwysterau Cenedlaethol newydd. Yn arwain at waith parhaus i ddatblygu ein dulliau o adolygu, canfod a blaenoriaethu anghenion.

AMCAN CORFFORAETHOL 4: Sicrhau trefniadau llywodraethu cryf, atebolrwydd a gwerth am arian

Byddwn ni'n parhau i weithredu ac aeddfedu fel corff cyhoeddus atebol sy'n cael ei lywodraethu'n dda, gan reoli arian cyhoeddus yn gyfrifol, cyflawni ein dyletswyddau statudol, cyfrannu at amcanion polisi cyhoeddus ehangach, a rhoi sicrwydd clir ynghylch perfformiad, risgiau ac effaith.

	Gweithgaredd	Canlyniad
4.1	Parhau i ddatblygu a gwreiddio systemau corfforaethol cadarn yn ein gwaith, fel bod Adnodd yn gweithredu'n effeithlon, yn ddiogel, ac yn broffesiynol, ac yn galluogi pob tîm i gyflawni ei waith yn effeithiol.	Adroddiadau chwarterol rheolaidd i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Adnodd (ARAC). Rhoi ar waith argymhellion gwaith archwilio mewnol yn brydlon, gan gynnal dadansoddiadau o wraidd problemau. Barn archwilio allanol ddiamod am y cyfrifon blyneddol. Dangosyddion perfformiad allweddol wedi'u datblygu, a'r rheini'n destun adroddiadau rheolaidd ac yn cael eu mireinio dros amser.
4.2	Sicrhau bod Adnodd yn cyfrannu'n ystyrlon at amcanion polisi hirdymor, gan gynnwys llesiant cenedlaethau'r dyfodol, Cymraeg 2050, Cymru gynhwysol a gwrth-hiliol, a Chymru sero-net. Sicrhau bod Adnodd hefyd yn cefnogi'r gwaith o roi ar waith Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 a Deddf Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) 2026.	Gwaith wedi'i gwblhau i fapio gweithgareddau Adnodd o dan amcanion polisi allweddol, gydag amcanion clir a mecanweithiau adrodd wedi'u cyflwyno. Gweithgareddau i gefnogi deddfwriaeth newydd wedi'u cynnwys yn y prosiectau comisiynu ac ymchwil perthnasol.
4.3	Adolygu a diweddarau amcanion corfforaethol a chynlluniau yn unol ag unrhyw newidiadau i'n cylch gwaith a'n strategaeth yn dilyn etholiadau'r Senedd.	Cynlluniau gweithredol wedi'u hadolygu a'u diweddarau erbyn Chwarter 3.
4.4	Sicrhau sylfaen gorfforaethol gref, broffesiynol sy'n galluogi Adnodd i gyflawni'n effeithiol a rhoi gwerth am arian.	Helpu cynigwyr llwyddiannus i gynefino â'r fframwaith cyflenwyr a chynnal dadansoddiad o fylchau yn sail i gynlluniau ar gyfer rheoli ac aeddfedu'r fframwaith. Cyhoeddi a gweithredu fframwaith grantiau comisiynu Adnodd yn sail i'n rhaglen gomisiynu ar gyfer 2026/27. Gwella ansawdd y broses o gasglu a dadansoddi data ac adrodd am ddata, er mwyn cadw golwg well ar berfformiad ac ansawdd gwaith allweddol.

	Gweithgaredd	Canlyniad
4.5	Gweithio â chydweithwyr drwy'r sector addysg a'r sector cyhoeddus i sicrhau bod dull gweithredol a chorfforaethol Adnodd yn cyd-fynd ag arferion da.	Rhannu data a gwybodaeth â chyrff hyd braich eraill er mwyn gwella gallu, cysondeb a gwerth am arian ar y cyd.

AMCAN CORFFORAETHOL 5: Buddsoddi yn ein pobl, ein systemau a'n ffyrdd o weithio

Byddwn ni'n helpu ein staff i ffynnu, yn cryfhau ein systemau a'n ffyrdd o weithio, ac yn meithrin diwylliant cynhwysol, cydweithredol sy'n galluogi Adnodd i gyflawni'n effeithiol ac yn gynaliadwy.


	Gweithgaredd	Canlyniad
5.1	Gwreiddio dull Adnodd o ddatblygu perfformiad y staff, gan gytuno ar amcanion clir ar gyfer y staff, monitro'r rheini, a chreu cyfleoedd rheolaidd ar gyfer dysgu proffesiynol ystyrlon.	Creu calendr o gyfleoedd dysgu proffesiynol aml-foddol sy'n diwallu anghenion datblygu unigolion a'r tîm.
5.2	Blaenoriaethu llesiant, cynhwysiant, twf proffesiynol a lefelau ymgysylltu i sicrhau bod Adnodd yn weithle cefnogol a chynhwysol lle mae pobl yn perfformio'n dda.	Cynnal arolwg staff blynyddol i fonitro lefelau ymgysylltu a defnyddio'r canfyddiadau yn sail i welliannau.
5.3	Cynnal diwylliant cadarnhaol a deinamig drwy fodel arweinyddiaeth wasgaredig sydd wedi'i wreiddio yng ngwerthoedd Adnodd.	Y staff yn parhau i ddweud bod lefel eu boddhad yn uchel, a'u bod yn cael y gefnogaeth iawn i dyfu a datblygu yn eu swyddi.
5.4	Parhau i adolygu a gwella polisïau Adnodd a ffyrdd o weithio i sicrhau eu bod nhw'n adlewyrchu diwylliant a gwerthoedd y sefydliad.	Monitro effaith gwaith ym maes dysgu proffesiynol a llesiant, a chynnal adolygiadau cylchol, gan weithio gyda fforwm y staff i sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei gynnig yn dal i gefnogi'r tîm a'r sefydliad ehangach.

Monitro ac adrodd

I gyd-fynd â'r prif weithgareddau a'r prif lifoedd gwaith sy'n cael eu disgrifio yn y cynllun hwn, ceir cynlluniau gwaith a chynlluniau prosiectau manwl. Mae'r rheini'n cyflwyno'r tasgau a'r cerrig milltir penodol y mae'n rhaid eu cwblhau i gyflawni ein hamcanion corfforaethol cyffredinol.

Byddwn ni'n defnyddio'r cynlluniau gwaith hyn i fonitro a rheoli cynnydd, risgiau, perfformiad a chanlyniadau o dan ein hamcanion corfforaethol a'r blaenoriaethau gweithredol yn ein llythyr ariannu. Byddwn ni'n rhoi adroddiadau rheolaidd i'n Bwrdd ac i Lywodraeth Cymru am y rhain.





adnodd.llyw.cymru